# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 6

ATODOL

*Canllawiau*

### 71 Dyletswydd i roi sylw i ganllawiau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau mewn perthynas ag arfer swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon.

(2) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau y maent yn meddwl eu bod yn briodol (os oes rhai).

(3) Wrth arfer eu swyddogaethau, rhaid i'r personau a ganlyn roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon—

(a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;

(b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;

(c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;

(d) yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;

(e) y pwyllgor rheoli ar gyfer uned cyfeirio disgyblion;

(f) person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn, ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);

(g) awdurdod lleol yng Nghymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 71 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Canllawiau. (See end of Document for details)*

**I2** A. 71 mewn grym ar 1.9.2022 gan O.S. 2022/652, **ergl. 4(f)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Canllawiau.